

Dweud eich Dweud am Bwysau ar Gyllideb y Cyngor 2016 - 2019



- Mae lleihad mewn costau a gwelliannau effeithlonrwydd yn cael eu gwneud o ganlyniad i doriadau yng ngrant y llywodraeth; costau cyflogaeth uwch; pwysau demograffig a chwyddiant
- Mae cyllideb gwariant cyfalaf net y Cyngor tua £200 miliwn y flwyddyn
- Gwnaed dros £25 miliwn mewn arbedion eisoes dros y blynyddoedd diwethaf

OND

- Bydd angen arbed o leiaf £40 miliwn yn fwy dros y tair blynedd nesaf
- Bydd toriadau'n debygol o gael effaith ar y gwasanaethau yr ydych CHI'n eu defnyddio
- Ymhlith y syniadau arbed arian mae:
 - Cynyddu incwm
 - Gwneud llai o'r un peth
 - Gwneud pethau'n wahanol

Daeth y syniadau yn y ddogfen hon oddi wrth bobl a sefydliadau lleol yr ydym wedi siarad â nhw'n barod, yn ogystal â Chynghorwyr a staff y Sir. Mae'r syniadau yn y ddogfen hon yn cynrychioli cyfran o'r cyfanswm sydd angen i ni ei arbed. Rydym ni'n gweithio'n galed i geisio adnabod arbedion pellach, gan gynnwys rhagor o arbedion mewnol.

Dyma eich cyfle CHI i ddweud wrthym beth rydych CHI'n ei feddwl am y syniadau.

Eich Barn

Gallwch roi eich barn drwy ymateb ar lein yn www.pembrokeshire.gov.uk/haveyoursay Neu gallwch lenwi copi caled a'i ddychwelyd at: Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw **Dydd Gwener 4 Ionawr 2016**.

Defnyddir yr wybodaeth a gesglir yn ystod yr ymgynghoriad i helpu Cynghorwyr i benderfynu ar ffurf y gyllideb derfynol ar gyfer 2016 – 2017 (byddan nhw'n gwneud eu penderfyniad terfynol ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf) a / neu i helpu rheolwyr i benderfynu ar raglenni newid posib dros y blynyddoedd i ddod.

Byddwn hefyd yn darparu cyfleoedd i chi roi eich barn ar syniadau arbed arian pellach unwaith eto yn y dyfodol.

Mae'r ffigurau cyfansymiol cyllidol a roddir ar gyfer pob cynnig yn cynrychioli cost cyfalaf net 2015–16 i'r Awdurdod, oni nodir yn wahanol.

Adran 1: Cynyddu incwm

Byddai cynyddu faint o arian sy'n dod i mewn i'r Cyngor yn ein helpu i gyrraedd ein targedau gwneud arbedion.

1.Cynyddu Treth y Cyngor

Gallem gynyddu Treth y Cyngor o 4.5% yn 2016 - 2017

**2016 - 2017 gan arbed £1.9 miliwn (tua 10.5% o'r cyfanswm arbedion sydd eu hangen)
NEU**

Gallem gynyddu Treth y Cyngor o 5% yn 2016 – 2017

2016 – 2017 gan arbed £2.1 miliwn (tua 11.5% o'r cyfanswm arbedion sydd eu hangen)

System o drethiant lleol a ddefnyddir i ariannu gwasanaethau'r Cyngor yn rhannol yw Treth y Cyngor. Mae'n seiliedig ar werth tai pobl. Bydd yr Asiantaeth Swyddfa Brisiant yn penderfynu beth yw gwerth tŷ pob person. Penderfyniad pob Cyngor Sir yw penderfynu wedyn faint i godi ar berchnogion tai bob blwyddyn.

Yr uchafswm y gall Cyngor Sir gynyddu Treth y Cyngor mewn blwyddyn yw 5%.

Bydd rhai pobl yn cael cymorth i dalu Treth y Cyngor drwy gyfrwng cynlluniau gostyngiadau a hepgoriadau gwahanol.

Cwestiwn 1. A ddylid cynyddu Treth y Cyngor ar gyfer 2016 – 2017? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

Dylid

Na ddylid

1a. Os dylid, o faint y dylid ei godi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

4.5%

5%

Arall, nodwch beth os gwelwch yn dda

1b. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

2.Cynyddu Costau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi

Cyfanswm cyllideb N/A

Arbedion 2016 - 2017 £N/A

Arbedion tair blynedd £ – gweler isod

Polisi Cyngor Sir Penfro erioed fu peidio â rhoi unrhyw ostyngiadau i berchnogion ail gartrefi, ac amcangyfrifir fod dros 3,000 ohonynt yn y sir. Ar hyn o bryd mae'r perchnogion hyn yn gorfod talu 100% o Dreth y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cyflwyno rheoliadau, cyn mis Ebrill 2016 a fydd yn caniatáu i Dreth y Cyngor gael ei godi ar hyd at ddwbl yr uchafswm presennol (h.y.,

200%). Dylid nodi na fydd y cynigion hyn yn dod i rym tan flwyddyn ariannol 2017 – 2018. Byddai unrhyw gyfalaf ychwanegol a gynhyrchid yn cael ei gadw gan y Cyngor a disgwylir y gallai hyn godi swm ychwanegol o incwm fyddai'n £2 – £2.5 miliwn o leiaf (yn unol ag unrhyw eithriadau a nodir yn y rheoliadau).

Cwestiwn 2. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

2a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

3. Parcio Ceir – cynyddu costau

Cyfanswm cyllideb (gwarged £ 519,000)

2016 - 2017 (gwarged £ 48,000)

Tair blynedd (gwarged £208,000)

Yn 2015 - 2016, cynyddwyd costau parcio ceir mewn nifer o feysydd parcio oedd yn codi, addaswyd cyfnod codi tâl yn y meysydd parcio tymhorol ac mae'r broses o gyflwyno taliadau newydd mewn rhai meysydd parcio a arferai fod yn rhad ac am ddim wrthi'n cael ei gweithredu (costau'n cael eu cyflwyno o 1 Chwefror 2016). Cyllidebwyd am y mesurau hyn i ddangos cynnydd mewn incwm o £160K yn 2015 - 2016 a swm pellach o £48K yn 2016 - 2017. Fel rhan o'r ymrwymiad i adolygu costau parcio, parheir i adolygu'r trefniadau codi presennol a'r potensial i gyflwyno costau, gyda'r targed o gynyddu incwm o £80k y flwyddyn yn ystod cyfnod 2017-2019 (h.y. £208K dros gyfnod o 3 blynedd). Defnyddir costau uwch i gefnogi gwasanaethau rheoli trafndiaeth, y cefnogir sawl un ohonynt ar hyn o bryd o gronfa gyffredinol.

Cwestiwn 3. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

3a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

4. Casglu gwastraff mawr o'r cartref – cynyddu costau

Cyfanswm cyllideb £ 753,000

Arbediad 2016 - 2017 £45,000

Rydym ni'n darparu gwasanaeth casglu gwastraff mawr o'r cartref, ac mae Rheoliadau Gwastraff a Reolir 2012 yn caniatáu i ni godi tâl rhesymol am gasglu, ond nid am waredu. Y tâl presennol am gasglu yw £17 am bum eitem neu lai a £22.50 am hyd at 10 eitem. Dangosodd adolygiad ffioedd o'i gymharu â Cheredigion fod hyn yn gymharol rad, gan fod Ceredigion yn codi £40 am hyd at 6 eitem a darparwr preifat arall yn codi £50 am bob casgliad. Mae gan Frame gytundeb i ddarparu'r casgliadau ar ein rhan. Ar hyn o bryd mae cost pob casgliad yn gyfwerth â £42.68, er bod hyn yn amrywio yn dibynnu ar faint o gasgliadau a wneir.

Cynigir newid y costau fel a ganlyn:

- Cynyddu costau casglu gwastraff mawr o'r cartref yn unol â'r hyn y mae'n ei gostio ar hyn o bryd, i £42.68 am hyd at 10 eitem.
- Dileu'r dewis 'hyd at 5 eitem'.

Pe bai'r nifer casgliadau'n aros yr un faint, byddai hyn yn cynhyrchu £45,000 ychwanegol. Serch hynny, rydym ni'n rhagweld y bydd nifer y casgliadau'n disgyn er gwaetha'r ffaith fod hyn yn dal i gynnig gwerth am arian rhesymol o'i gymharu â sawl dewis arall

Cwestiwn 4. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

4a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

5. Gwasanaethau hamdden – cynyddu prisiau

Cyfanswm cyllideb £1,605,000

Arbediad 2016 - 2017 £112,000

Cododd prisiau gwasanaethau hamdden yn fwy na chyfradd chwyddiant dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, gan greu arbediad o tua £400,000. Pe baem ni'n cynyddu prisiau o 3% pellach ar gyfer 2016 – 2017, ac na fyddai hyn yn cael dim effaith ar faint o ddefnydd a wneir o'r gwasanaeth, gellid gwneud arbedion o £112,000.

Cwestiwn 5. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

5a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

6. Cadw llyfr llyfrgell – ailgyflwyno tâl

Cyfanswm cyllideb £ N/A

Arbediad 2016 - 2017 £ 5,000

Ar hyn o bryd, ni chodir tâl am gadw llyfr mewn llyfrgell gyhoeddus oni bai fod angen i ni ei ffynonellu o'r tu allan i Gymru. Byddai'r cynnig hwn yn ein gweld ni'n ailgyflwyno tâl. Rai blynyddoedd yn ôl, cyn i gadw llyfrau fod am ddim, roedd tâl o £1 mewn grym a derbynai'r gwasanaeth ryw 8,000 o geisiadau cadw bob blwyddyn (rhai ar gyfer plant, nad oedd tâl i'w dalu ar eu cyfer). Pan dynnwyd y tâl am wasanaeth, cynyddodd y galw am gadw llyfrau, ac roedd yn rhyw 34,000 y llynedd. Gallwn ddisgwyl felly y byddai ailgyflwyno tâl yn lleihau'r galw o ryw 10,000. Yn unol â pholisi codi'r gwasanaethau, byddai'r effaith ar ddefnyddwyr y mae ganddynt hawl i dâl gostyngol yn golygu disgownt o 1/3 ar y tâl llawn. Pe baem ni'n ailgyflwyno tâl cadw, byddai'n costio tua £1.30 er mwyn cymryd i ystyriaeth gostau staff sy'n darparu'r gwasanaeth a chwyddiant dros y blynyddoedd ers i'r gwasanaeth godi £1. Byddai consesiynau tua 85c i 90c.

Cwestiwn 6. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

6a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

7. Prydau ysgol – cynyddu'r pris

Cyfanswm cyllideb £2,295,000

Arbediad 2016 - 2017 (cynyddu pris prydau ysgol i £2.25) £200,000

Arbediad tair blynedd (cynyddu pris prydau ysgol fesul cam i £2.50) £350,000

Rydym ni'n darparu dros 481,000 o frechwastau am ddim bob blwyddyn, mewn 56 ysgol gynradd; 256,000 pryd ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys mewn ysgolion cynradd a 103,000 pryd ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn unol â'n dyletswyddau statudol ac mae'n costio £1,287,000 y flwyddyn. Yn ogystal, rydym ni'n darparu prydau ysgol ar gost o £2.10 yr un mewn ysgolion cynradd ac ar gost a amcanir ei fod yn £2.15 mewn ysgolion uwchradd (ble bydd disgyblion yn cael dewis mewn ffreutur). Mae 53% yn dewis cael cinio ysgol yn y sector gynradd a 49% yn yr uwchradd. Mae ein prisiau'n cymharu'n ffafriol ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Ceir y pryd ysgol gynradd rhataf ar hyn o bryd yn Sir Ddinbych (£1.90) a'r drytaf yn Sir Gaerfyrddin (£2.30). Ceir y pryd ysgol uwchradd rhataf ar hyn o bryd yn Sir Ddinbych (£2.05) a'r drytaf yn Rhondda Cynon Taf (£2.50). Yn seiliedig ar ein cyllideb bresennol, mae pob pryd cynradd yn costio 62c yn fwy i'w gynhyrchu na'r pris a godir, a sybsideiddir prisiau uwchradd ar gyfartaledd o 15%. Rydym ni wrthi'n cyflwyno sawl dull o dalu ar lein ar hyn o bryd er mwyn helpu

rhieni prysur i beidio â gorfod dod o hyd i arian parod bob dydd / wythnos ar gyfer eu plant. Mae hyn hefyd yn ein helpu ni i leihau costau drwy gymryd yr arian allan o'r ysgolion, gan leihau peryglon bwlio a gwneud disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn anweledig.

Cwestiwn 7. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw pob un o'r canlynol yn eich barn chi?
(ticiwch un yn unig gyferbyn â phob un os gwelwch yn dda)

	Derbyniol	Ddim y naill na'r llall	Annerbyniol
Cynyddu costau pryd ysgol i £2.50 fesul camau dros 3 blynedd			
Lleihau dewis prydau, ansawdd y bwyd a chostau nad ydynt ar fwyd			
Cynyddu galw			
Sicrhau fod pawb sy'n mynd ar drip ysgol gynradd a fyddai fel arfer yn cael pryd ysgol yn mynd â phe cyn bwyd gyda nhw			
Lleihau dyledion drwg – herio'n fwy grymus rieni sydd £50 neu fwy y tu ôl â'u taliadau			
Codi pris gwahanol ar gyfer prydau babanod ac iau mewn ysgolion cynradd			
Cynnig disgownt i rieni sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol misol am 190 pryd ymhob blwyddyn ysgol			
Cynnig disgownt i deuluoedd 3 neu ragor o ddisgyblion sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol misol am 190 pryd ymhob blwyddyn ysgol			

7a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

Cwestiwn 8. Defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni a oes gennych CHI unrhyw syniadau sut y gallem gynyddu incwm o ffynonellau presennol neu gyflwyno taliadau mewn manau eraill

Adran 2: Gwneud Llai o'r Un Peth

Byddai lleihau pa mor aml y byddwn ni'n gwneud pethau, neu'r lefel yr ydym yn eu gwneud, mewn rhai meysydd, yn ein helpu i gyrraedd ein targedau arbedion.

9. Gweithredwyr Bysiau – Lleihau cefnogaeth

Cyfanswm cyllideb £818,000

Arbediad 2016 - 2017 £48,000

Lleihau cefnogi gwasanaethau bws wedi'u sybsideiddio yn Sir Benfro. Fe allai effaith hyn arwain at lai o wasanaethau bws, yn enwedig ymhlith gwasanaethau mwy ymylol a llai-eu-defnydd.

Cwestiwn 9. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

9a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

10. Pontydd a strwythurau – Lleihau amllder cynnal a chadw cyffredinol

Cyfanswm cyllideb £558,000

Arbediad 2016 - 2017 £27,000

Lleihau gwaith cynnal a chadw pontydd beunyddiol ac ymatebol o fewn canllawiau iechyd a diogelwch.

Cwestiwn 10. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

10a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

11. Gwarchod yr arfordir – Lleihau amllder cynnal a chadw cyffredinol

Cyfanswm cyllideb £157,000

Arbediad 2016 - 2017 £7,000

Lleihau gwaith cynnal a chadw arferol diogelu'r arfordir. Bydd hyn yn effeithio ar ein gallu i ddatrys problemau erydiad arfordirol / llifogydd a chynnal a chadw / trwsio asedau arfordirol.

Cwestiwn 11. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

11a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

12. Rheoli Cŵn a'u lles

Cyfanswm cyllideb £158,000

Arbedion 2016 - 2017 £50,000

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddelio â chŵn strae, cŵn peryglus (ar y cyd â'r Heddlu) ac, yn ddiweddar, cŵn sydd allan o reolaeth. Fel awgrym o ffigwr yn Sir Benfro, amcangyfrifir fod rhyw £158,000 yn cael ei wario ar y gwaith hwn o reoli, gorfodi, glanhau ar ôl cŵn, ynghyd â sicrhau cydymffurfio ag is-ddeddfau traeth yn ymwneud â chŵn (rhan o ddyfarnu gwobrau traethau megis y Fanner Las). Mae Sir Penfro'n cyflogi tri warden cŵn, gan gynnwys cerbydau ac offer. Mae gan yr awdurdod gytundeb cenela ar gyfer cŵn strae a gasglwyd. Mae gwaith y wardeiniaid cŵn yn eang ac mae'n cynnwys gosod 'micro-chips', rhaglenni addysgu mewn ysgolion, a chynorthwyo perchnogion cŵn. Bydd cymunedau'n codi mater baw cŵn yn gyson ac er nad oes gorfodaeth statudol, bydd wardeiniaid cŵn hefyd yn cynorthwyo cymunedau lleol i ddelio â'r niwsans afiach hwn. Byddai lleihau'r gwasanaeth hwn i leiafswm statudol, a fyddai'n golygu delio â chŵn strae yn unig, yn creu arbedion.

Cwestiwn 12. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw pob un o'r canlynol yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

12a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

13. Torri porfa – lleihau amllder y gwasanaeth

Cyfanswm cyllideb £ 906,000

Arbedion 2016 - 2017 £42,000

Cafodd torri'r borfa mewn parciau a mannau agored ei leihau eisoes i 14 toriad y flwyddyn. Os torrwn hyn i lawr i wyth toriad y flwyddyn byddem ni'n arbed £42,000 y flwyddyn. Effaith hyn fyddai fod y borfa'n tyfu'n hirach rhwng pob toriad a mwy o doriadau'n cael eu gadael ar ôl pob

toriad.

Cwestiwn 13. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

13a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

14. Priffyrdd – lleihau amllder cynnal a chadw cyffredinol

Cyfanswm cyllideb £4,026,000

Arbediad 2016 - 2017 £260,000

Mae hyn yn delio â chynnal a chadw cylchynol (gan gynnwys ymateb brys), gwaith glanhau draeniad a thorri porfa a chloddiau ar ochrau'r ffordd. Byddai adolygiad o lefelau staffio, trafndiaeth ac offer yn rhan o hyn. Mae'n debygol y byddai lleihad cyllideb yn arwain at lai o griwiau cynnal a chadw, a fyddai'n arwain at fwy o amser rhwng achosion o gynnal gwaith trwsio cyffredinol. Byddai hyn yn cael effaith ar ansawdd y briffordd. Byddai hefyd yn debygol o arwain at amseroedd ymateb arafach mewn achosion o geisiadau gwasanaeth ymatebol ac yn ystod tywydd drwg.

Cwestiwn 14. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

14a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

15. Priffyrdd – lleihau cynnal a chadw

Cyfanswm cyllideb £2,693,000

Arbediad 2016 - 2017 £174,000

Byddai hyn yn cynnwys lleihad mewn trwsio strwythurol (megis rhoi wyneb newydd ar ffyrdd), lleihad yn y rhaglen trin yr wyneb, a lleihad mewn gwaith bychan (megis cynlluniau draenio, ac adnewyddu'r llwybrau a'r heolydd a gynlluniwyd). Effaith hyn fyddai dirywiad yn ansawdd y priffyrdd a chynnydd yn y galw am waith ymatebol (megis clytio) yn hytrach nag ail-wynebu a

gynlluniwyd.

Cwestiwn 15. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

15a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

16. Casgliadau Gwastraff ac Ailgylchu Ochr y Ffordd. Bagiau oren, gwastraff bwyd a gwydr i'w gasglu unwaith bob pythefnos a bagiau duon i'w casglu unwaith y mis

Cyfanswm cyllideb £ 1,847,000

Arbedion blwyddyn gyfan £170,000

Cyflwynwyd casgliadau bob pythefnos ar gyfer bagiau duon yn Sir Benfro yn 2014. Gellid gwneud arbedion pellach drwy newid i gasgliadau misol o ran bagiau duon ynghyd â chasgliad misol ar gyfer cynnyrch hylendid amsugol (ar gyfer cartrefi sy'n gymwys yn unig), gyda chasgliadau bob pythefnos o fwyd, oren (wythnosol ar hyn o bryd) a gwydr. Byddai gofyn gwneud buddsoddiad cyfalaf i addasu'r cerbydau presennol a gwneud newidiadau i'r biniau storio a ddarperir i gartrefi ar hyn o bryd.

Cwestiwn 16. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

16a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

17. Canolfannau Hamdden – cael gwared ar oriau agor gwyliau banc a'r Nadolig mewn rhai canolfannau

Cyfanswm cyllideb £1,605,000

Arbediad 2016 - 2017 £10,000

Yn draddodiadol, canfuwyd fod defnydd llawer llai o ganolfannau hamdden ar wyliau banc a thros gyfnod gwyliau'r Nadolig. Rydym yn cynnig cau cyfran o'r canolfannau hamdden yn ystod y cyfnodau hyn. Bydd y canolfannau hamdden sy'n aros ar agor yn sicrhau fod gwasanaethau hamdden yn dal ar gael i bobl leol ac ymwelwyr. Doi'r arbedion drwy effeithiolrwydd llenwi ar gyfer

gwyliau staff. Mae hefyd yn debygol y byddai canolfannau sy'n aros ar agor yn denu mwy o ddefnyddwyr ac yn cael eu rhedeg yn fwy cost-effeithiol.

Cwestiwn 17. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

17a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

18. Llyfrgell a chanolfan wybodaeth Hwlfordd ac Aberdaugleddau – diddymu oriau agor gwyliau banc

Cyfanswm cyllideb £ N/A

Arbediad 2016 - 2017 £ 3,000

Ers i ni symud gwasanaethau gwybodaeth i ymwelwyr i mewn i rai o'n llyfrgelloedd yn 2014, rydym wedi bod yn eu hagor ar wyliau'r banc, yn benodol er mwyn sicrhau fod y galw am wybodaeth gan ymwelwyr yn cael ei ateb. Ym Mhenfro a Saundersfoot, mae'r ymholiadau ymwelwyr dros wyliau banc yn ddigon mawr i gyfiawnhau eu cadw ar agor. Serch hynny, bychan iawn yw'r ymholiadau gan ymwelwyr ar wyliau banc yn Aberdaugleddau a Hwlfordd. Dim ond 13 ymholiad yn Hwlfordd a 3 yn Aberdaugleddau ar ôl cyfuno pob un o wyliau banc y flwyddyn hon. Y cynnig felly fyddai gweld cau llyfrgelloedd Hwlfordd ac Aberdaugleddau ar wyliau'r banc i adlewyrchu'r lefel isel o ymholiadau gan ymwelwyr.

Cwestiwn 18. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

18a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

19. Llyfrau llyfrgell – lleihau'r gronfa prynu llyfrau

Cyfanswm cyllideb £ 219,000

Arbediad 2016 - 2017 £ 15,000

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn gwario tua £219,000 ar stoc newydd bob blwyddyn er mwyn sicrhau fod gan bob un o'n llyfrgelloedd ddewis ac ystod da o lyfrau, DVDau, cylchgronau ac ati, gan gynnwys y pethau diweddaraf. Rydym hefyd yn prynu e-lyfrau, e-gylchgronau a deunydd arall

ar lein. Byddai'r cynnig hwn yn ein gweld yn lleihau gwariant ar stoc newydd yn dilyn gostyngiadau dros y 3 blynedd ddiwethaf o ryw £100,000 i gyd. Mae perygl, o dorri ymhellach, y gallem fethu â chwrdd â dau o safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru (sy'n safon ansawdd a weinyddir gan Lywodraeth Cymru). Yn ogystal, yn y tymor hir, bydd torri'n ôl yn ormodol ar ein gwariant ar stoc y llyfrgell yn effeithio ar ddewis i'r cwsmer, ac ar y defnydd o'n llyfrgelloedd yn y pen draw.

Cwestiwn 19. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

19a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

20. Cymhareb disgybl athro – lleihau

Cyfanswm cyllideb £ 15,922, 000

Arbediad 2016 - 2017 £ 750,000

Ar hyn o bryd, rydym ni'n ariannu faint o athrawon sydd yn ein hysgolion cynradd ar gymhareb o i 21 yn y dosbarthiadau babanod ac 1 i 24.5 mewn dosbarthiadau iau. Gellid cynyddu hyn yn y dyfodol i gyd-fynd â'r gymhareb a ddefnyddir gan Gynghorau mewn siroedd cyfagos (tua 1 i 28).

Cwestiwn 20. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

20a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

21. Cyllidebau ysgolion – eu rhewi ar gyfer 2016 - 2017

Cyfanswm cyllideb £ 69,332,000

Arbediad 2016 - 2017 hyd at £ 2,500,000

Rydym ni'n cynnig newid trefniadau ar gyfer cyllidebau ysgolion unigol. Ar gyfer 2016 – 2017 rydym ni'n cynnig gwarchod cyllidebau ysgolion unigol ar y lefel a benderfynwyd gan Lywodraeth Cymru yn unig. Bernir fod y gwarchod hyn yn cynnwys lwfans ar gyfer cyflog, cost a phwysau chwyddiant. Cyfrifyddir y gwarchod ar sail cyllidebau 2015-2016 (wedi'u haddasu i ystyried newidiadau yn niferoedd disgyblion).

Cwestiwn 21. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

21a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

22. Glanhau strydoedd – lleihau amllder

Cyfanswm cyllideb £ 1,531,000

Arbediad 2016 - 2017 £ 90,000

Lleihau pa mor aml y caiff strydoedd eu glanhau a biniau sbwriel cyhoeddus ac ailgylchu eu gwagio ar draws Sir Benfro. Mae perygl y gallai hyn gynyddu sbwriel a thipio anghyfreithlon.

Cwestiwn 22. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

22a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

23. Goleuo strydoedd – lleihau

Cyfanswm cyllideb £921,000

Arbediad 2016 - 2017 £60,000

Rydym eisoes wedi gweithredu diffodd goleuadau'n rhan amser dros nos ac wedi dechrau newid goleuadau am rai LED amgen sy'n fwy effeithlon o ran ynni, ac wedi gwneud arbedion sylweddol o ganlyniad. Gellid gwneud arbedion pellach drwy ddifodd rhai goleuadau'n llwyr (megis goleuadau unigol, rhai sy'n gwasanaethu ardaloedd heb lawer o boblogaeth) a thrwy adolygu mesurau arbed ynni pellach. Byddai amseroedd ymateb atgyweirio goleuadau'n cynyddu.

Cwestiwn 23. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

23a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

24. Canolfan Gyswilt Ffôn – lleihau amser targed ateb galwad

Cyfanswm cyllideb £ 1,063,000

Arbediad 2016 - 2017 £87,000

Ar hyn o bryd yr amser ar gyfartaledd a gymer i ateb galwadau ffôn yw 20 eiliad. Bydd angen i'r amser aros gynyddu i funud (60 eiliad) os byddwn yn parhau i leihau'r gyllideb.

Cwestiwn 24. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

24a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

25. Cyllideb cynnal y Gaeaf – lleihau

Cyfanswm cyllideb £329,000

Arbediad 2016 - 2017 £20,000

Mae'r gyllideb bresennol yn caniatáu ar gyfer gaeaf arferol yn Sir Benfro. Bu ychydig o orwario yn y blynyddoedd diweddar. Byddai lleihau'r gyllideb yn effeithio ar ein gallu i ddelio â digwyddiadau anrhagweledig (e.e. gallai effeithio ar ein hamserau ymateb neu ein gallu i ymateb i bob gofyniad adweithiol). Gallai lleihau'r gyllideb olygu y byddai'n rhaid i ni ddefnyddio'r gronfa wrth gefn i ddelio ag amodau tywydd gwael.

Cwestiwn 25. Pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn yn eich barn chi? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

25a. Sut fyddai hyn yn eich effeithio chi, eich teulu, busnes neu gymuned?

Cwestiwn 26. Defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni a oes unrhyw bethau yr ydych CHI'n meddwl y gallem ni wneud llai ohonynt

Adran 3: Gwneud Pethau'n Wahanol

Mae'r syniadau gaiff eu hamlinellu yn yr adran hon yn cyfeirio at wneud newidiadau mawr i'r ffordd yr ydym yn gweithredu ar hyn o bryd. Dyma brosiectau tymor hir sydd ond yn debygol o sicrhau arbedion i ni yn y blynyddoedd wedi 2016 – 2017. Felly, byddai'n ddefnyddiol i ni wybod sut ydych chi'n teimlo ynghylch rhai o'r syniadau hyn 'mewn egwyddor' cyn i ni symud ymlaen gyda datblygiad ac ymgynghoriad mwy manwl.

27. Mannau casglu cymunedol ar gyfer gwastraff ac ailgylchu

Cyfanswm gyllideb £ 1,847,000

Arbediad 2016 - 2017 anhysbys

Mae gennym rai mannau casglu cymunedol lle mae trigolion yn mynd â'u sbwriel i un lle i gael ei gasglu. Mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd mewn mannau lle nad yw'r lorïau yn gallu cael mynediad at bob eiddo unigol e.e. rhai ystadau, fflatiau ac mewn rhai lonydd/pentrefi lle nad oes digon o le i'r lorïau. Dyma syniad sydd wedi cael ei awgrymu i ni gan rai pobl leol mewn rhai mannau. Byddai'n rhaid i ni wneud mwy o waith i edrych faint allai hyn ei arbed i ni.

Cwestiwn 27. Mewn egwyddor, pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn i chi? (ticiwch un yn unig)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

27a. Sut fyddai hyn yn effeithio arnoch chi, eich teulu, eich busnes neu gymuned?

28. Cyflenwi gwasanaethau mewn canolfannau cymunedol

Cyfanswm gyllideb £ N/A

Arbediad 2016 - 2017 anhysbys

Mae nifer o bobl eisoes wedi awgrymu y dylem adolygu o ble rydym yn darparu rhai o'n gwasanaethau wyneb-yn-wyneb. Mae'r rhain yn cynnwys pethau fel canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid; canolfannau hamdden a llyfrgelloedd, yn ogystal â dysgu oedolion a dysgu cymunedol. Awgrymwyd y gallem ddarparu nifer o wasanaethau o un lleoliad (canolfannau cymunedol). Syniad arall yw cael Neuadd y Sir yn Hwlfordd fel canolfan i wasanaethau wyneb yn wyneb â chwsmeriaid, gyda swyddogaethau 'swyddfa gefn' yn symud i rywle arall. Mae'n annhebygol y byddwn yn gallu parhau i ddarparu'r holl wasanaethau wyneb yn wyneb yn y mannau sydd gennym ar hyn o bryd, felly hoffem wybod beth gredwch chi ddylai ein blaenoriaethau fod.

Cwestiwn 28. Mewn egwyddor, pa mor dderbyniol neu annerbyniol i chi yw'r syniad o gael Neuadd y Sir yn Hwlfordd yn ganolfan i wasanaethau wyneb yn wyneb â chwsmeriaid, gyda swyddogaethau 'swyddfa gefn' yn symud i rywle arall? (ticiwch un yn unig)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

28a. Mewn egwyddor, pa mor dderbyniol neu annerbyniol i chi yw'r syniad o 'ganolfannau cymunedol' (nifer o wasanaethau'r Cyngor yn cael eu darparu o un lleoliad)? (ticiwch un yn unig)

- Derbyniol
- Dduim y naill na'r llall
- Annerbyniol

28b. Nodwch os gwelwch yn dda ym mha drefi neu gymunedau gredwch chi y dylai fod yn flaenoriaeth i ni gael 'canolfan gymunedol' i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb? Graddiwch bump o'r deg opsiwn isod os gwelwch yn dda. Rhowch 1 yn erbyn y dref/cymuned gredwch chi yw'r bwysicaf i ni ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb ynddi, 2 yn erbyn yr ail, 3 yn erbyn y drydedd, ac ati. Peidiwch â graddio mwy na phump os gwelwch yn dda. Peidiwch â defnyddio'r un rhif (h.y. 1,2,3,4 neu 5) fwy nag unwaith.

Trefn neu Gymuned	Gradd
Crymych	
Abergwaun	
Hwlfordd	
Aberdaugleddau	
Neyland	
Penfro	
Doc Penfro	
Dinbych y pysgod	
Saundersfoot	
Arberth	
Arall (nodwch os gwelwch yn dda)	

28c. Sut fyddai hyn yn effeithio arnoch chi, eich teulu, eich busnes neu gymuned?

29. Llyfrgelloedd – archwilio modelau gwahanol o ddarparu gwasanaeth o'n llyfrgelloedd llai

Cyfanswm gyllideb £80,000**Arbediad 2016 - 2017 £17,000**

Yn dilyn ymgysylltiad eang gyda defnyddwyr llyfrgell a phobl nad ydynt yn ddefnyddwyr, lle casglwyd gwybodaeth ar anghenion llyfrgell cymunedau a syniadau ynghylch sut allen ni gwtogi'r costau cyflenwi, rydym wedi cyrraedd cam lle mae tri opsiwn yn cael eu trafod ymhellach gyda chymunedau:

- 1). Gofyn am gyllid gan gynghorau cymuned a thref fel bod modd cynnal gwasanaeth llyfrgell proffesiynol. Gallai hyn olygu cynyddu maint y praesept lleol er mwyn galluogi cynghorau cymuned a thref i godi digon o arian i gyfrannu at ariannu'r gwasanaeth.
- 2). Gweithio mewn partneriaeth gyda'r gymuned leol i greu ateb i sefyllfa'r llyfrgelloedd sy'n seiliedig ar reolaeth gymunedol gyda chymorth gwirfoddolwyr (a rhai aelodau o staff cyflogedig), a gyda pheth cyllid gan gynghorau cymuned a thref (ond llai nag opsiwn 1).
- 3). Cynnig darpariaeth llyfrgell symudol yn wythnosol yn lle darpariaeth llyfrgell statig mewn rhai manau.

Dyma'r llyfrgelloedd lle mae'r opsiynau hyn yn cael eu trafod ar hyn o bryd: Saundersfoot, Trefdraeth ac Arberth (gyda thrafodaethau ar fin cychwyn ym Mhenfro). Yn dilyn trafodaethau gyda Chyngor Dinas Tyddewi, maen nhw wedi dewis opsiwn 1, h.y. rhoi cyfraniad blynyddol i Gyngor Sir Penfro i sicrhau bod gwasanaeth llyfrgell proffesiynol yn parhau yn y ddinas. Rydym yn datblygu cynigion gwahanol i'n llyfrgelloedd mwy o faint yn ein prif drefi, a allai eu gweld yn rhannu lleoliadau gyda gwasanaethau cyngor eraill i greu 'siopau un stop'. Bydd hyn yn destun ymgynghoriad ar wahân os/pan fydd y cynnig wedi'i ddatblygu'n llawnach.

Cwestiwn 29. Mewn egwyddor, pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn i chi yn achos pob un o'r rhain? (ticiwch un yn unig yn erbyn pob un os gwelwch yn dda)

	Derbyniol	Dim barn	Annerbyniol
Llyfrgell Arberth			
Llyfrgell Trefdraeth			
Llyfrgell Penfro			
Llyfrgell Saundersfoot			

29a. Sut fyddai hyn yn effeithio arnoch chi, eich teulu, eich busnes neu gymuned?

30. Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Hamdden a/neu Ddiwylliant

Cyfanswm gyllideb £4,712,000**Arbediad 2016 - 2017 £ N/A****Arbediad tair blynedd £ 500,000 i £ 600,000**

Mae'r opsiwn hwn yn golygu sefydlu cwmni newydd gyda statws elusennol (Ymddiriedolaeth) i weithredu'r canlynol ar ran y cyngor: diwylliant (llyfrgelloedd, amgueddfeydd, archifau) a hamdden (gan gynnwys pyllau nofio, meysydd chwaraeon synthetig, trac athletau, Canolfan Denis dan do a'r holl wasanaethau a rhaglenni o'u mewn). Noder: er y byddai'r Ymddiriedolaeth yn rheoli'r gwasanaeth llyfrgelloedd, byddai'r cyfrifoldeb statudol dros ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithiol yn parhau gyda'r awdurdod lleol. Byddai gan yr Ymddiriedolaeth newydd fanteision fel rhyddhad ardrethi NNDR, a fyddai'n arbed oddeutu £5 - £600,000. Byddai gan yr

elusen gytundeb gyda'r Cyngor a byddai'n derbyn grant blynyddol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau (gan adolygu hynny bod 3-5 mlynedd). Byddai'n rhaid i'r cyngor adolygu'r cytundeb hwn i sicrhau bod ansawdd a gwerth am arian yn parhau. Byddai'r elusen yn annibynnol o'r awdurdod, gyda Bwrdd Ymddiriedolwyr yn llywodraethu drosti. Mae nifer o Gyngorau eraill wedi sefydlu Ymddiredolaethau Hamdden a/neu Ddiwylliant yng Nghymru. Digon cymysg fu llwyddiant Ymddiriedolaethau Hamdden, tra bod Ymddiriedolaethau Diwylliant a Hamdden yn weddol newydd yng Nghymru, ond gyda mwy o hanes yn Lloegr.

Cwestiwn 30. Mewn egwyddor, pa mor dderbyniol neu annerbyniol i chi yw pob un o'r canlynol? (ticiwch un yn unig)

	Derbyniol	Dim barn	Annerbyniol
Ymddiriedolaeth Hamdden			
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Diwylliant (llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau)			
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Hamdden a Diwylliant			

30a. Sut fyddai hyn yn effeithio arnoch chi, eich teulu, eich busnes neu gymuned?

31. Allanoli gwasanaethau / Gwerthu ein gwasanaethau

Cyfanswm gyllideb £N/A

Arbediad 2016 - 2017 £ anhysbys

Arbediad tair blynedd £ anhysbys

Bydd ariannu'r diffyg yn y gyllideb yn heriol a bydd angen i'r Cyngor Sir ystyried y dulliau a ddefnyddiwn ar hyn o bryd i gyflenwi gwasanaethau er mwyn gweld a oes modd cyflenwi gwasanaethau yn fwy effeithlon ac yn fwy cost effeithiol. Mae marchnad fasnachol fywiog ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol lle mae nifer o gyrff sector preifat yn rheoli cytundebau sydd wedi'u hallanoli, gan ddisgwyl y byddant yn gallu lleihau costau gweithredu yn sylweddol drwy ddarbudion maint a hynny heb amharu ar dargedau o ran cyflenwi gwasanaethau. Mae yna hefyd gyfleoedd i greu cwmnïau masnachu i alluogi'r Cyngor i gystadlu gyda'r sector preifat neu i ddarparu gwasanaethau i awdurdodau lleol eraill fel asesu ceisiadau am fudd-daliadau a gostyngiadau/eithriadau'r Dreth Gyngor.

Cwestiwn 31. Mewn egwyddor, pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn i chi? (ticiwch un yn unig)

	Allanoli gwasanaeth		Creu cwmni masnachu	
	Derbyniol	Annerbyniol	Derbyniol	Annerbyniol
Claddu a'r Amlogfa				
Gwasanaethau arlwyo				

Refeniw & Budd-daliadau				
Gwastraff & Ailgylchu				

31a. Sut fyddai hyn yn effeithio arnoch chi, eich teulu, eich busnes neu gymuned?

32. Toiledau cyhoeddus – archwilio trefniadau rheoli gwahanol i doiledau ychwanegol

Cyfanswm gyllideb £580,000
Arbediad 2016 - 2017 £40,000

Gallai trefniadau rheoli eraill gynnwys: cynyddu nifer y toiledau talu am ddefnyddio; codi'r tâl o 20c; cau mwy o doiledau, neu drosglwyddo rheolaeth mwy o doiledau i gymunedau. Gofynnir i chi roi eich barn ar bob un o'r rhain isod.

Cwestiwn 32. Nodwch pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw pob un o'r canlynol i chi
 (ticiwch un yn unig yn erbyn pob un os gwelwch yn dda)

	Derbyniol	Dim barn	Annerbyniol
Cynyddu nifer y toiledau talu am ddefnyddio			
Codi'r tâl o 20c			
Cau mwy ohonynt			
Trosglwyddo i'r cymunedau			

32a. Sut fyddai hyn yn effeithio arnoch chi, eich teulu, eich busnes neu gymuned?

33. Lleihau'r galw ar wasanaethau gofal yn y cartref

Cyfanswm gyllideb £12,549,000
Arbediad 2016 - 2017 £820,000

Parhau gyda'r gwaith o adolygu pecynnau gofal (cymorth yn y cartref) i sicrhau bod pobl yn derbyn gwasanaethau sy'n cyd-fynd â'u hanghenion a aseswyd. Mae hyn yn gofyn am ddefnydd effeithiol o wasanaethau ail-alluogi i sicrhau bod pobl yn cynnal eu hannibyniaeth cyhyd ag sy'n bosibl yn eu cartref a'u cymuned eu hunain.

Cwestiwn 33. Mewn egwyddor, pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn i chi? (ticiwch un yn unig)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

33a. Sut fyddai hyn yn effeithio arnoch chi, eich teulu, eich busnes neu gymuned?

34. Lleihau nifer y bobl sy'n derbyn gofal preswyl neu nyrsio tymor hir

Cyfanswm gyllideb £17,338,000

Arbediad 2016 - 2017 £815,000

Lleihau nifer y bobl sy'n derby gofal preswyl neu nyrsio tymor hir trwy sicrhau ein bod yn cyflawni eu hanghenion yn y cartref cyhyd ag sy'n bosibl. Bydd yn rhaid i ni sicrhau bod ail-alluogi yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau bod pobl yn gallu helpu eu hunain i gynnal eu hannibyniaeth yn eu cartrefi, a sicrhau ein bod yn hyrwyddo gwasanaethau teleofal i helpu pobl adref, a hefyd ein bod yn datblygu cefnogaeth gymunedol lefel isel gyda'r trydydd sector neu'r sector gwirfoddol.

Cwestiwn 34. Mewn egwyddor, pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn i chi? (ticiwch un yn unig)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

34a. Sut fyddai hyn yn effeithio arnoch chi, eich teulu, eich busnes neu gymuned?

35. Gofal seibiant a seibiant byr – archwilio datblygiad capasiti o fewn y sector gofal maeth

Cyfanswm gyllideb £ 477,000

Arbediad 2016 - 2017 £ 300,000

Ar hyn o bryd, mae rhai plant a phobl ifanc yn derbyn gofal seibiant o fewn darpariaeth breswyl yn lleol a hefyd tu allan i'r sir. Mae'r trefniant hwn yn gallu golygu bod pobl ifanc weithiau yn cael eu symud i ffwrdd o'u cymuned leol ac i leoliad grŵp. Mae'r cynnig ar gyfer datblygu ymhellach y ddarpariaeth seibiant a seibiant byr yn y sector maethu. Byddai hyn yn galluogi'r bobl ifanc i aros yn eu cymuned a darparu gofal o ansawdd mewn lleoliad teuluol. Mae gan y gwasanaeth maethu nifer fach o ofalwyr craidd gyda phrofiad helaeth o faethu pobl ifanc ag anghenion cymhleth neu anabledd. Ymhellach, mae yna sylfaen sgiliau o fewn y grŵp staff presennol o ddarparu gofal maeth i'r grŵp hwn o bobl ifanc. Byddai ehangu'r gwasanaeth yn gofyn am dargedu a recriwtio darpar ofalwyr a thynnu ar arbenigedd staff presennol i asesu'r gofalwyr yn briodol a'u cefnogi yn y dasg hon.

Cwestiwn 35. Mewn egwyddor, pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn i chi? (ticiwch un yn unig)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

35a. Sut fyddai hyn yn effeithio arnoch chi, eich teulu, eich busnes neu gymuned?

36. Gwasanaethau allgymorth ysgol - archwilio ailddatblygiad

Cyfanswm gyllideb £ 1,858,000

Arbediad 2016 - 2017 £ 130,000

Mae gan y Cyngor ystod o wasanaethau arbenigol ar gael sydd â'r hyblygrwydd i gwrdd ag anghenion newidiol y boblogaeth ysgol. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau arbenigol yn cael eu darparu gan nifer o dimau gwahanol yn gweithio'n annibynnol o'i gilydd. Gan gydweithio'n agos gyda'n timau iechyd ac addysg arbenigol, bydd y timau'n cael eu cyfuno i ddarparu ymagwedd cydgysylltiedig i deuluoedd ac ysgolion.

Cwestiwn 36. Mewn egwyddor, pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn i chi? (ticiwch un yn unig)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

36a. Sut fyddai hyn yn effeithio arnoch chi, eich teulu, eich busnes neu gymuned?

37. Maenordy a Pharc Gwledig Scolton - cynyddu'r incwm a gynhyrchir i alluogi'r safle i ddod yn fwy hunangynhaliol

Cyfanswm gyllideb £158,000

Arbediad 2016 - 2017 £12,845

Arbediad tair blynedd £158,000

Mae Maenordy Scolton yn barc gwledig ac amgueddfa gan gynnwys 60 erw o barc a choetir, ardaloedd chwarae i blant yn yr awyr agored, amgueddfa tŷ Fictoraidd, gardd furiog a chanolfan cadw gwenyn yng nghanol Sir Benfro. Dyma hefyd gartref casgliadau amgueddfa'r Sir. Rhagwelir y bydd buddsoddiad cymharol fach (trwy adnoddau cyfalaf untro a grantiau allanol) yn seilwaith y safle (e.e. creu lle pwrpasol i fysiau barcio), gweithgareddau (e.e. trac beicio oddi ar y ffordd, mwy o offer chwarae plant a hynny ar raddfa fwy) a marchnata yn gwella lefelau cynhyrchu incwm a fyddai'n dileu'r diffyg gweithredu sydd gennym ar hyn o bryd. Byddai hyn yn arwain at well gwasanaeth, a gwasanaeth hefyd a fyddai'n talu ei gostau ei hunan, i'w fwynhau gan bobl leol ac

ymwelwyr a ddaw i'r sir.

Cwestiwn 37. Mewn egwyddor, pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn i chi? (ticiwch un yn unig)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

37a. Sut fyddai hyn yn effeithio arnoch chi, eich teulu, eich busnes neu gymuned?

38. Llety dros dro i'r digartref – archwilio darpariaeth sector preifat

Cyfanswm gyllideb - £288,000

Arbediad 2016 - £63,000

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i'r Sir ddarparu llety dros dro i grwpiau penodol o bobl a theuluoedd digartref, ac ar hyn o bryd, mae'n gwneud hyn mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft:

- darparu hostel ym Mhenfro,
- defnyddio llety gwely a brecwast,
- defnyddio tai'r Cyngor
- defnyddio'r sector preifat, a
- defnyddio llety arbenigol fel llochesau Cam-drin yn y Cartref.

Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys yr holl ddarpariaeth.

Mae'n rhaid i ni edrych ar sicrhau bod y llety a ddefnyddiwn yn cynrychioli gwerth am arian trwy wneud y defnydd mwyaf posibl o'r llety a ddefnyddiwn a lleihau costau net o incwm. I wneud hynny, mae'n rhaid i opsiynau fod ar gael sy'n gallu ymateb i'r amrywiadau yn y galw. Ar hyn o bryd, cyfartaledd defnyddio ein hostel yw 40% o'r capasiti sydd yno; mae'n bosibl bod opsiynau eraill sy'n fwy addas o ystyried y lefel hwn o alw. Pe byddem yn penderfynu peidio â darparu llety mewn hostel, byddai'n rhaid i ni barhau i ddarparu llety dros dro yn ôl y galw; mae'n bosibl y byddai'r opsiynau eraill hyn yn profi i fod yn ddrutach yn nhermau costau net, ond yn fwy hyblyg o ran ateb y galw.

Cwestiwn 38. Mewn egwyddor, pa mor dderbyniol neu annerbyniol yw hyn i chi? (ticiwch un yn unig)

- Derbyniol
- Ddim y naill na'r llall
- Annerbyniol

38a. Sut fyddai hyn yn effeithio arnoch chi, eich teulu, eich busnes neu gymuned?

Cwestiwn 39. Defnyddiwch y gofod hwn i nodi unrhyw awgrymiadau sydd gennych CHI ynghylch sut y gallem fod yn gwneud pethau'n wahanol

Adran 4: Sylwadau Eraill

Cwestiwn 40. Defnyddiwch y gofod hwn i nodi unrhyw sylwadau eraill ynghylch sut all y Cyngor gyflawni ei dargedau arbedion

Adran 5: Amdanoch Chi

Cwestiwn 41. A ydych chi'n ateb fel (ticiwch yr holl rai perthnasol os gwelwch yn dda)

- Unigolyn Gweithiwr i'r Cyngor Aelod o'r Cyngor
 Cynrychiolydd busnes neu fudiad lleol (nodwch os gwelwch yn dda) -----

Cwestiwn 42. Beth yw eich iaith gyntaf? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Saesneg Cymraeg
Arall, nodwch os gwelwch yn dda -----

Cwestiwn 43. A ydych chi yn (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Gwryw Benyw Mae'n well gen i beidio â dweud

Cwestiwn 44. A ydych chi (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- 16 oed neu iau
 17 – 24
 25 – 64
 65 – 74
 75 oed neu hŷn
 Mae'n well gen i beidio â dweud

Cwestiwn 45. A oes gennych unrhyw blant 18 oed neu iau sy'n ddibynnol arnoch? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Oes Nac oes Mae'n well gen i beidio â dweud

Cwestiwn 46. A ydych yn darparu gofal rheolaidd, sylweddol a di-dâl i berthynas, cyfaill neu gymydog sy'n methu ymdopi gartref heb help oherwydd salwch, oedran neu anabledd?

(ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Ydw Nac ydw Mae'n well gen i beidio â dweud

Cwestiwn 47. A oes gennych chi gyflwr iechyd neu anabledd sydd wedi parhau, neu y disgwylir iddo barhau, am 12 mis neu fwy? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Oes Nac oes Mae'n well gen i beidio â dweud

Cwestiwn 48. Beth yw eich crefydd? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Dim crefydd
 Cristion (pob enwad)
 Bwdhaidd
 Hindŵaidd
 Iddewig
 Mwslimaidd
 Sikhaidd
 Mae'n well gen i beidio â dweud
 Unrhyw grefydd arall (nodwch os gwelwch yn dda)

Cwestiwn 49. Beth yw eich grŵp ethnig? (ticiwch un yn unig os gwelwch yn dda)

- Gwyn (Cymraeg, Saesneg, Albanaidd, Gwyddelig, Prydeinig)
 Gwyn Arall, gan gynnwys Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig
 Grwpiau ethnig cymysg / lluosog
 Asiaidd / Asiaidd Prydeinig
 Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig
 Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch os gwelwch yn dda)

Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, ewch ag ef i lyfrgell, Gwasanaethau Cwsmeriaid neu Ganolfan Hamdden neu postiwch i: Cyngor Sir Powys, Marchnata, 2D Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP erbyn **04/12/15**

Diolch i chi am eich amser